# Pwyllgor Cynghori ar Dwyllwybodaeth a Chamwybodaeth

## Cylch Gorchwyl

| | |
|---|---|
| Cymeradwywyd gan Fwrdd Ofcom ar: | 13 Tachwedd 2024 |
| Fersiynau blaenorol: | |
| | |
| | |

# Cylch Gorchwyl

## Pwrpas

1. Mae Adran 152 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y 'Ddeddf') yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu ac yn cynnal pwyllgor cynghori ar dwyllwybodaeth a chamwybodaeth. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys cadeirydd a benodir gan Ofcom, ac unrhyw nifer o aelodau eraill a benodir gan Fwrdd Ofcom, fel sy'n briodol ym marn Ofcom.

## Swyddogaeth a dyletswyddau

2. Swyddogaeth y Pwyllgor yw cynghori Ofcom am feysydd penodol o'n gwaith sy'n berthnasol i dwyllwybodaeth a chamwybodaeth, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
    a) sut dylai darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ddelio â thwyllwybodaeth a chamwybodaeth ar wasanaethau o'r fath,
    b) Ofcom yn arfer ei bwerau tryloywder i fynnu gwybodaeth gan wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio am faterion sy'n ymwneud â thwyllwybodaeth a chamwybodaeth, ac
    c) Ofcom yn arfer ei ddyletswyddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn perthynas â mynd i'r afael â thwyllwybodaeth a chamwybodaeth ar wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.
    d) Ofcom yn datblygu polisi mewn perthynas â'r rhaglen waith ar gyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi.
3. Rhaid i'r Pwyllgor gyhoeddi adroddiad o fewn 18 mis iddo gael ei sefydlu ac adroddiadau cyfnodol wedi hynny.

## Aelodaeth

4. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried pa mor ddymunol yw sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig, buddiannau darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, a phobl sydd ag arbenigedd mewn atal a delio â thwyllwybodaeth a chamwybodaeth ar-lein.
5. Bydd y Pwyllgor Twyllwybodaeth/Camwybodaeth yn cael ei gadeirio gan Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom sydd â phrofiad o faterion Diogelwch Ar-lein, nad yw'n Gadeirydd Bwrdd Ofcom.
6. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn Anweithredol.
7. Penodir aelodau'r Pwyllgor am gyfnod o dair blynedd.
8. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys o leiaf 4 Aelod, gan gynnwys y Cadeirydd.

## Ysgrifennydd

9. Bydd Ysgrifennydd y Gorfforaeth, neu ei enwebai, yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor a bydd yn sicrhau ei fod yn derbyn gwybodaeth a phapurau yn brydlon er mwyn gallu ystyried materion yn llawn ac yn briodol.

## Cworwm

10. Bydd hanner cyfanswm nifer yr holl Aelodau (wedi'i dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf) yn gworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod.

## Amlder a chynnal cyfarfodydd

11. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod gyda'i gilydd o leiaf unwaith y flwyddyn. Gellir cynnal cyfarfodydd ychwanegol hefyd yn ôl y galw, ar gais Cadeirydd y Pwyllgor.
12. Bydd cydweithwyr gweithredol perthnasol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar gyfer eitemau penodol ac, fel y bo'n briodol, unrhyw arsylwyr.
13. Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn, gall y weithrediaeth ymgysylltu ag aelodau'r Pwyllgor fesul un o bryd i'w gilydd er mwyn cael trafodaethau manylach ar faterion sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.
14. Caiff aelodau fod yn bresennol drwy feddalwedd fideogynadledda (e.e. Microsoft Teams) neu dros y ffôn er mwyn cael cworwm.
15. Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol, gall y Cadeirydd enwebu un o'r aelodau eraill i gadeirio'r cyfarfod, neu bydd yr Aelodau sy'n bresennol yn dewis un o'u plith i wneud hynny.

## Hysbysiad o gyfarfodydd

16. Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor eu galw gan Ysgrifennydd y Pwyllgor ar gais y Cadeirydd.
17. Oni chytunir fel arall, anfonir hysbysiad o bob cyfarfod yn cadarnhau lleoliad, amser a dyddiad y cyfarfod, ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod, at bob aelod o'r Pwyllgor ac at unrhyw berson arall y mae'n ofynnol iddo fod yn bresennol heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Anfonir papurau ategol at Aelodau'r Pwyllgor ac at fynychwyr eraill, fel y bo'n briodol, ar yr un pryd.
18. Bydd ymgysylltiad unigol ag aelodau'r Pwyllgor a'r weithrediaeth yn cael ei alw ar gais gweithrediaeth Ofcom.

## Cofnodion cyfarfodydd

19. Bydd Ysgrifennydd y Pwyllgor yn cofnodi trafodion holl gyfarfodydd y Pwyllgor, gan gynnwys cofnodi enwau'r rhai sy'n bresennol.
20. Bydd cofnodion drafft holl gyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod i'w cymeradwyo. Bydd yr Ysgrifennydd yn cadw copïau o holl gofnodion cymeradwy cyfarfodydd y Pwyllgor.

## Cyfrifoldebau Adrodd

21. Bydd y Pwyllgor yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Ofcom drwy Gadeirydd y Pwyllgor. Bydd Bwrdd Ofcom yn adolygu'r cylch gorchwyl hwn o bryd i'w gilydd.
22. Bydd yr adroddiadau y bydd y Pwyllgor yn eu cyhoeddi yn cynnwys trosolwg o waith y Pwyllgor, a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i gylch gwaith Ofcom ar dwyllwybodaeth a chamwybodaeth fel y nodir yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

## Materion eraill

23. Bydd y Pwyllgor yn:

- Cael mynediad at ddigon o adnoddau er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys mynediad at y tîm Llywodraethu i gael cyngor a chymorth yn ôl yr angen.
- Cael hyfforddiant priodol ac amserol, ar ffurf rhaglen gynefino i Aelodau newydd ac yn barhaus i'r holl Aelodau.
- Sicrhau bod perfformiad y Pwyllgor yn cael ei werthuso o bryd i'w gilydd.
- Adolygu ei gyfansoddiad a'i Gylch Gorchwyl yn flynyddol o leiaf i sicrhau ei fod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl ac argymell unrhyw newidiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i'r Bwrdd eu cymeradwyo fel rhan o gylch adolygu effeithiolrwydd blynyddol y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd.

| Dyddiad cymeradwyo | Dyddiad yr adolygiad nesaf |
| --- | --- |
| Tachwedd 2024 | Tachwedd 2026 |